

# Cyngor Partneriaeth Cymru 10 Mehefin 2020

## Mynychwyr

<b>Gweinidogion Llywodraeth Cymru</b>	
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol	Julie James AS (Cadeirydd)
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol	Hannah Blythyn AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd	Jeremy Miles AS
<b>Llywodraeth Leol</b>	
Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Y Cyng. Andrew Morgan
Arweinydd Cyngor Caerdydd	Y Cyng. Huw Thomas
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion	Y Cyng. Ellen ap Gwynn
Arweinydd Cyngor Conwy	Y Cyng. Sam Rowlands
Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd	Y Cyng. Jane Mudd
Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe	Y Cyng. Rob Stewart
Arweinydd Sir Ddinbych	Y Cyng. Hugh Evans OBE
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Y Cyng. Huw David
Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin	Y Cyng. Mair Stephens
Cynrychiolydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd	Mr Alun Michael
Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a chynrychiolydd Byrddau Iechyd Lleol	Maria Battle
Cynrychiolydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	Owain Wyn
Cynrychiolydd Cyngorau Cymuned	Y Cyng. Michael Cuddy
<b>Sylwedyddion</b>	
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Peter Davies, Cadeirydd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Chris Llewellyn, Prif Weithredwr
TUC Cymru	Savannah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol
Un Llais Cymru	Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr
<b>Swyddogion Llywodraeth Cymru</b>	
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol	
<b>Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</b>	
Chris Llewellyn, Prif Weithredwr,	
Daniel Hurford, Pennaeth Polisi	
<b>Ymddiheuriadau</b>	
Y Cyng. Tudor Davies	
Awdurdodau Tân ac Achub	

Commented [OR(CSC1): Should this be 'Llewelyn' (with one 'l' in the middle)? That's how it's spelt in the rest of the document and on WLGA materials online as well.

# Cyngor Partneriaeth Cymru 10 Mehefin 2020

## Croeso a chyflwyniadau

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr holl aelodau a diolchodd iddynt am fynychu, gan gydnabod cyfarfod cyntaf y Cynghorydd Andrew Morgan fel arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).
2. Nododd y Gweinidog na fyddai'n mynd drwy'r cofnodion blaenorol ar hyn o bryd, gan fod llawer wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf ym mis Hydref, ond eu bod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gellid cyfeirio unrhyw sylwadau at yr ysgrifenyddiaeth.

<https://llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-cymru-2-hydref-2019>

## Eitem 1: Datgloi ein Cymdeithas ac adferiad.

3. Cyflwynodd y Gweinidog Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (CG&MET) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar asesiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o sefyllfa COVID-19 a rhagamcanion a dull strategol o gynllunio adfer.
4. Diolchodd y CG&MET i'r aelodau am y cyfle i siarad â nhw a dywedodd y byddai'n croesawu eu barn heddiw. Gwnaeth y CG&MET grynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ar ôl COVID-19, a sut mae'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus, yr economi ac agenda werdd Llywodraeth Cymru. Soniodd y CG&MET yn fyr hefyd am ddiweddariadau a roddwyd i'r Senedd ar ddiwyddiadau bord gron sy'n dod ag arbenigedd o bob rhan o'r DU a thramor - gan ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol (gwasanaethau cyhoeddus, yr economi, pobl sy'n agored i niwed ac adferiad gwyrdd). Dywedodd y CG&MET fod y cyfarfodydd bord gron wedi procio'r meddwl ac nad oeddent heb her, ond roedd yn dda profi rhagdybiaethau ac roedd yn ddiolchgar am yr amser yr oedd unigolion wedi'i roi i'r sesiynau.
5. Soniodd y CG&MET am elfennau o'r gwaith oedd ar y gweill yng Nghymru o ran llacio'r cyfyngiadau symud, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymagwedd gyflym ond gofalus at yr hyn a ddisgrifiodd y Prif Weinidog fel y cam 'gwyrdd'. Cyfeiriodd y CG&MET at yr hyn y gallai 'normal' fod gan bwysleisio gall beth bynnag fydd hynny fod yn wahanol i'r hyn a brofon ni cyn COVID-19.
6. Disgrifiodd y CG&MET mai un o'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'r cyfarfodydd bord gron, ac o drafodaethau gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, yw cynllunio ar gyfer dyfodol tra gwahanol.
7. Un sylw a adleisiwyd gan aelodau eraill o'r Cyngor Partneriaeth oedd gallu profedig gwasanaethau cyhoeddus dros y misoedd diwethaf i addasu'n gyflym, bod yn arloesol a dysgu sut i wneud pethau'n wahanol. Dywedodd y CG&MET

## Cyngor Partneriaeth Cymru 10 Mehefin 2020

mai rhan o'r her ar gyfer pob lefel o lywodraeth wrth symud ymlaen yw dysgu o'r profiadau hyn ac adeiladu arnynt. Tynnodd y CG&MET sylw at gydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill a oedd wedi lleihau rhai o'r rhwystrau a fyddai wedi bod yn anoddach cyn COVID-19 ac wedi helpu i'w goresgyn.

8. Gwnaeth y CG&MET gyfeirio at ymyriadau polisi penodol, gan dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol yr oedd yr argyfwng wedi'i chael mewn nifer o feysydd, gan gynnwys mynd i'r afael â digartrefedd ac annog datblygiadau cyflym yn y defnydd o offer digidol megis apwyntiadau meddyg teulu'r GIG a mwy o wasanaethau awdurdodau lleol ar-lein.
9. Un thema allweddol a oedd wedi dod i'r amlwg o'r cyfarfodydd bord gron ac y cadarnhaodd y CG&MET fod angen mynd i'r afael â hi oedd y cwestiwn dros degwch rhwng y cenedlaethau, yn enwedig yr effaith ar blant o ran peidio â gallu mynd i'r ysgol a'r effeithiau economaidd negyddol hirdymor ar bobl ifanc sy'n mynd i'r farchnad swyddi.
10. Gwnaeth y CG&MET grynhoi bod penderfyniadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19 yn seiliedig ar dystiolaeth a chyingor gan arbenigwyr sy'n cynnwys y Prif Swyddog Meddygol a gweithwyr gwyddoniaeth proffesiynol yn y Gell Cyngor Technegol. Caiff yr holl ddiweddariadau ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf eu rhoi ar Wefan Llywodraeth Cymru.
11. Nododd y CG&MET fod 400 o achosion COVID-19 yn cael eu cadarnhau yn ddyddiol pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, o'i gymharu â 50 o achosion yn ddyddiol heddiw. Yn ôl y CG&MET, os bydd y duedd hon yn parhau bydd mwy o hyblygrwydd i lacio cyfyngiadau. Nododd sut y gallai'r cyfyngiadau symud gael eu codi a phwysigrwydd cydsyniad cymunedol yn y broses honno.
12. Ailadroddodd y CG&MET sylwadau'r Prif Weinidog yn gynharach yn yr wythnos o ran y manteision a geir o wybodaeth a gesglir drwy'r ap CovidZoe. Dywedodd y CG&MET wrth yr aelodau fod yr ap wedi'i lawrlwytho 70,000 o weithiau ac anogodd bob aelod o'r Cyngor Partneriaeth i annog eraill i'w lawrlwytho a'i ddefnyddio.

**Cam gweithredu:** Ysgrifenyddiaeth i rannu manylion yr ap CovidZoe gydag aelodau.

### Eitem 2 – Ein Hadferiad ar y Cyd

13. Gwnaeth cynrychiolydd CLILC, Daniel Hurford, grynhoi'r papur sydd wedi'i ddarparu a oedd yn nodi'r ymateb cychwynnol gan lywodraeth leol i argyfwng COVID-19 gan dynnu sylw at rai o'r heriau roedden nhw'n eu rhag-weld wrth symud ymlaen i'r cyfnod adfer; yn ogystal â chyfleoedd posibl. Yn ganolog i feddylfryd CLILC oedd y weledigaeth o'r hyn yr ydym ei eisiau ar gyfer llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus a'r economi yn y dyfodol.

## Cyngor Partneriaeth Cymru 10 Mehefin 2020

Pwysleisiodd Daniel fod y papur yn cynrychioli safbwynt llywodraeth leol ond roedd yn adleisio teimladau aelodau eraill o ran pa mor falch oedden nhw o ymatebion llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus wrth weithio'n gyflym gyda phartneriaid yn eu cymunedau i roi cefnogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed.

14. Cyfeiriodd Daniel at y ffaith bod y CG&MET hefyd wedi cydnabod cyfraniad llywodraeth leol at ddarpariaeth gofal cymdeithasol; adeiladu ysbytai maes; y cynllun gwarchod; a darparu cymorth i fusnesau. Cyfeiriodd Daniel hefyd yn benodol at y cynllun Profi Olrhain a Diogelu a sut yr oedd pawb oedd yn rhan o'r cynllun wedi addasu'n gyflym i oresgyn heriau logistaidd.
15. Ychwanegodd Chris Llewelyn bod COVID-19 wedi arddangos cryfder llywodraeth leol wrth ddehongli a gweithredu strategaeth Llywodraeth Cymru, gan ystyried capasiti ac amgylchiadau lleol a chyflawni ar gyfer eu cymunedau.
16. Cyfeiriodd Chris at lwyddiant yr ymgysylltu gwleidyddol sydd wedi digwydd, gyda chyfarfodydd wythnosol rhwng arweinwyr llywodraeth leol a'r Gweinidog a Gweinidogion eraill. Mae'r trefniadau cydweithio agos wedi golygu bod pethau wedi digwydd yn gyflym iawn a bod rhwystrau wedi eu goresgyn mewn cyfnod byr iawn. Tynnodd Chris sylw at bwysigrwydd manteisio ar y ffyrdd hyn o weithio i'n cynorthwyo drwy'r cyfnod adfer.
17. Croesawodd y Cynghorydd Andrew Morgan sylwadau Chris Llewelyn a chydnabu'r berthynas weithio agos rhwng arweinwyr llywodraeth leol a Gweinidogion Cymru sydd wedi arwain at alluogi llywodraeth leol i ddylanwadu ar bolisi wrth symud ymlaen. Cydnabuwyd bod yr argyfwng wedi arwain at ddealltwriaeth lawer ehangach ymysg gwleidyddion a'r cyhoedd o rôl llywodraeth leol a'i heffaith ar gymunedau.
18. Cytunodd y Gweinidog a nododd ei bod wedi bod yn bleser mawr gweithio mor agos gyda chydweithwyr llywodraeth leol a mynegodd ei diolch i staff y rheng flaen sydd wedi gweithio mor galed i gefnogi ein cymunedau drwy'r argyfwng.
19. Bu trafodaeth ynghylch capasiti wrth symud ymlaen i'r cyfnod adfer a dwyster y gwaith sydd i'w wneud i gefnogi'r agenda genedlaethol. Bydd angen ymrwymiad sylweddol gan yr holl bartneriaid ar gyfer hyn.
20. Cytunwyd bod y cyfnod o ymateb i argyfwng COVID-19 wedi arwain at atal rhai cyfarfodydd a grwpiau rheolaidd dros dro ac awgrymwyd ei bod nawr yn briodol gwirio perthnasedd rhai o'r grwpiau hynny wrth symud ymlaen. Mae'n bwysig sicrhau bod ymgysylltu yn canolbwyntio ar gefnogi adferiad a'r trawsnewidiad i'r byd newydd.
21. Mae'n bwysig hefyd cwestiynu ein ffyrdd o weithio, a pharhau i achub ar y cyfle i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac osgoi teithio diangen yn y dyfodol.

Commented [OR(CSC2)]: Typo in the English – 'Chis'.

## Cyngor Partneriaeth Cymru 10 Mehefin 2020

22. Croesawodd Alun Michael y drafodaeth ynglŷn â strwythurau ymgysylltu ac anogodd yr aelodau i ystyried cysylltu gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynghyd i osgoi dyblygu. Adleisiodd Alun Michael sylwadau aelodau eraill ynghylch effeithiolrwydd yr ymgysylltu a ddigwyddodd drwy gydol argyfwng COVID-19, yn enwedig o ran cysylltiadau'r Heddlu gyda Llywodraeth Cymru, Gweinidogion a llywodraeth leol.
23. Bu trafodaeth ynghylch yr her o weithio o fewn strwythurau brys presennol nad oedd wedi'u cynllunio ar gyfer argyfwng o'r math yma. Cytunodd yr aelodau â'r pwynt cyffredinol, er bod gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu parhaus yn hanfodol, fod angen ystyried pa mor briodol yw'r strwythurau presennol wrth gefnogi hynny.
24. Nododd Mike Cuddy fod hyblygrwydd Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau cymunedol lleol wedi helpu'n fawr yn ystod yr argyfwng. Dywedodd Mike hefyd fod y Cynghorau Cymuned a Thref wedi dangos parodrwydd i barhau â'u cefnogaeth yn ystod y cyfnod adfer hir wrth helpu i ailgodi economïau lleol a gwydnwch cymunedol.
25. Cadarnhaodd y Gweinidog bwysigrwydd y Cynghorau Cymuned a Thref yn yr ymdrech adfer.
26. Croesawodd y Cynghorydd Huw Thomas y papur gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan ailadrodd pwysigrwydd lleoliaeth a'r angen i asesu ar ba lefel y mae gwasanaethau yn cael eu llywodraethu a'u cyflawni orau. Manylodd Huw ar ddwy enghraifft benodol, datblygiad economaidd o ran darparu cymorth busnes hanfodol, ac ymyriadau iechyd cyhoeddus yr oedd yn credu eu bod yn ychwanegu pwysau at yr achos dros ddychwelyd swyddogaethau iechyd cyhoeddus i lywodraeth leol.
27. Dywedodd y Cynghorydd Elin ap Gwynn fod argyfwng COVID-19 wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithio'n lleol ac yn achos Ceredigion pa mor effeithiol roedd partneriaid y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cydweithio ar lawr gwlad.
28. Cyfeiriodd Reg Kilpatrick aelodau at adroddiad terfynol yr adolygiad o bartneriaethau strategol, a gafodd ei gynnwys fel papur i'w nodi. Nododd Reg fod argymhellion o fewn yr adroddiad hwnnw a oedd yn gyson â'r pwyntiau a wnaed, gan gynnwys nad oes yr un bartneriaeth newydd yn cael ei rhoi ar waith heb ystyriaeth ofalus iawn, ac y dylid adolygu partneriaethau presennol o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen iddynt barhau ac, os felly, a oedd y cylch gorchwyl yn dal yn berthnasol. Cytunodd Reg y dylid herio biwrocratiaeth ddiangen, ac y byddai hyn yn bwysig ar draws pob maes polisi.
29. Cyflwynodd Gary Haggaty y papur nesaf '*Symud o'r cyfnod ymateb i'r cyfnod adferiad: argyfyngau sifil*' a oedd yn ceisio mynd i'r afael â threfniadau wedi'u cynllunio yn y maes argyfyngau sifil, yn enwedig yn sgil y ffaith nad oedd hyn yn argyfwng 'normal'. Esboniodd Gary fod y papur yn canolbwyntio'n bennaf ar y

## Cyngor Partneriaeth Cymru 10 Mehefin 2020

newid o'r Grwpiau Cydlynu Strategol i'r Grwpiau Cydlynu Rhanbarthol a'r ffordd orau y gallai'r Grwpiau Cydlynu Rhanbarthol ymwneud â threfniadau partneriaethau presennol megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Er bod gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb a'i bod yn hapus i hwyluso'r sgysiau eglurodd Gary y bydd penderfyniadau am sut y bydd Grwpiau Cydlynu Rhanbarthol yn gweithio ar lefel leol yn cael eu gwneud gan lywodraeth leol a phartneriaid. Fodd bynnag, roedd angen trafod materion cysondeb yn erbyn penderfyniadau lleol yn gyflym gan fod tri Grŵp Cydlynu Strategol eisoes wedi sefydlu eu Grwpiau Cydlynu Rhanbarthol ac roedd y pedwerydd ar fin gwneud hynny.

30. Disgrifiodd Rob Thomas y sefyllfa yn y De mewn perthynas â'r Grwpiau Cydlynu Strategol yn symud tuag at gyflwr segur wrth i waith y Grwpiau Cydlynu Rhanbarthol gynyddu, ond gyda chyfle i droi'n ôl yn achos nifer mawr o achosion o COVID-19 yn y dyfodol. Tynnodd Rob sylw at fater allweddol yr oedd angen ei ystyried mewn perthynas â sut y byddai'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol yn cysylltu ar lefel leol gyda phartneriaethau fel bargeinion dinesig a hefyd yn genedlaethol gyda Llywodraeth Cymru.
31. Cafwyd trafodaeth bellach ar bwysigrwydd sicrhau bod trefniadau'r Grwpiau Cydlynu Rhanbarthol yn briodol ar gyfer natur y gwaith adfer ac y gellid eu haddasu i weddu i'r sefyllfa. Derbyniwyd na fyddai un ateb yn addas i bawb ac y byddai trefniadau lleol yn bwysig, gan sicrhau bod y gwaith adfer yn cael ei arwain gan y rhai oedd yn atebol yn ddemocrataidd. Roedd eglurder rolau a chyfrifoldebau yn hanfodol.
32. Cyflwynodd y Gweinidog y cynnig ar gyfer Is-grŵp Adfer strategol newydd y Cyngor Partneriaeth a fyddai'n cefnogi ac yn sbarduno adferiad mewn nifer o feysydd i greu dyfodol newydd. Pwysleisiodd y Gweinidog yr angen am broses symlach a fyddai'n sicrhau'r defnydd gorau o amser pawb ac yn canolbwyntio ar rai materion allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
33. Croesawodd Alun Michael y gwaith o sefydlu'r Is-grŵp Adfer gan ddatgan ei ddiddordeb i fod yn rhan o'r grŵp.
34. Nododd Maria Battle bwysigrwydd trawsnewid gofal cymdeithasol a'i gysylltiadau ag iechyd ac felly gwirfoddolodd i enwebu cynrychiolydd iechyd ar gyfer yr Is-grŵp i helpu gyda'r ystyriaethau hyn.
35. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch gwahaniaethau yn effeithiolrwydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r cyfle i benderfynu'n lleol y ffordd orau o wneud iddynt weithio, gan gynnwys y posibilrwydd o uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus os credid mai dyna oedd y dull mwyaf effeithiol.
36. Caeodd y Gweinidog yr eitem hon drwy ailadrodd y byddai'r Is-grŵp Adfer yn helpu i ddod â'r ymdrechion adfer at ei gilydd ac yn llywio polisiau allweddol wrth symud ymlaen. O ran aelodaeth, roedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r ceisiadau gan aelodau'r Cyngor Partneriaeth i gymryd rhan a nododd y byddai'r grŵp yn

# Cyngor Partneriaeth Cymru

## 10 Mehefin 2020

cael ei ffurfio ar y sail honno a'i adolygu i sicrhau ei effeithiolrwydd. Gwahoddwyd yr aelodau i wneud unrhyw sylwadau pellach yn ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod.

### **Eitem sefydlog: diweddariad byr ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

37. Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y sefyllfa bresennol o ran pontio o'r UE. Dywedodd y CS&MET fod effaith argyfwng COVID-19 wedi lleihau'r cyfle i drafod pontio'r UE yn ystyrlon.
38. Nododd y CG&MET nad oes sicrwydd mewn perthynas â'r cyfnod ôl-bontio ac felly bu'n rhaid cynllunio ar gyfer amrywiaeth o ganlyniadau, gan gynnwys paratoi Cymru ar gyfer y DU yn gadael y cyfnod pontio heb gytundeb.
39. Cadarnhaodd y CG&MET faint o waith deddfwriaethol y bydd angen ei wneud unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael, a hefyd ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyllid gan Lywodraeth y DU a lefelau ymreolaeth Llywodraeth Cymru fel gweinyddiaeth ddatganoledig.

### **Papurau i'w nodi: 'Adolygiad o Bartneriaethau Strategol' a 'Datgarboneiddio a Llywodraeth Leol'**

40. Diolchodd y Gweinidog i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad o bartneriaethau strategol. Cytunodd y Gweinidog a'r aelodau fod yr adolygiad bellach wedi'i gwblhau.
41. Gofynnodd y Gweinidog i'r aelodau a oedden nhw'n fodlon cytuno ar y papur Datgarboneiddio, gan bwysleisio pa mor ganolog yr oedd i adferiad gwyrdd. Amlinellodd y Gweinidog Gyd-ddatganiad arfaethedig y Papur, gan nodi'r uchelgeisiau ar gyfer datgarboneiddio, a gofynnodd i aelodau'r Cyngor a oedden nhw'n hapus i'w sefydliadau gytuno iddo.
42. Nododd y Gweinidog hefyd y cynnig i'r Cyngor Partneriaeth gymryd rôl arwain ar ddatgarboneiddio, a'r argymhelliad i sefydlu Panel Strategaeth Datgarboneiddio i adrodd iddo.
43. Nododd y Gweinidog nad oedd amser ar gyfer trafodaeth fanwl ond gofynnodd am gadarnhad bod y dull hwn yn cael ei gefnogi er mwyn iddi ofyn i swyddogion ddechrau gweithredu'r cynnig. Nodwyd bod cytundeb a chafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol. Gofynnodd y Gweinidog i unrhyw sylwadau ychwanegol gael eu hanfon drwy e-bost.
44. Diolchodd y Gweinidog i bawb am gymryd rhan, nododd y byddai'r cyfarfod nesaf ar 14 Hydref, a daeth â'r cyfarfod i ben.